**Cofnodion Cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Brifysgolion – 02.02.22 (Microsoft Teams)**

**Cyfarfod ar y cyd â'r Grŵp Trawsbleidiol ar Iechyd Meddwl**

**Cadeiriwyd gan Hefin David AS a Ken Skates AS**

***Yn bresennol***

**Julie Lydon (Cadeirydd, Prifysgolion Cymru)**

Mae'n briodol i ni ddod â'r ddau grŵp trawsbleidiol ynghyd. Mae'n rhaid i ni fod yn glir ein bod yn sôn am iechyd meddwl myfyrwyr. Rydym wedi cael cyflwyniadau gwych ac wedi clywed gan gydweithwyr mewn prifysgolion. Rydym am adeiladu ar y sgyrsiau a gawsom ac archwilio cynigion ar gyfer strategaeth iechyd meddwl ôl-16 i fyfyrwyr.

Mae iechyd meddwl yn parhau i fod yn her i'r gymdeithas gyfan. Mae'n nodwedd o'r flwyddyn ddiwethaf neu ddwy, yn benodol oherwydd y pandemig. Rwy'n croesawu'n fawr y cyfle hwn i drafod y materion cyffredinol sy'n gysylltiedig â'r gofynion ar gyfer strategaeth iechyd meddwl ôl-16.

**Simon Jones (Mind Cymru)**

Mae'r pandemig wedi cael effaith sylweddol ar iechyd meddwl y boblogaeth gyfan. O ran ein safbwynt ni, mae'n bwysig nad ydym yn 'meddygoleiddio' teimladau myfyrwyr ar hyn o bryd. Mae'n bwysig hefyd nad ydym yn rhuthro i awgrymu y gallai fod gan bobl salwch meddwl pan mai'r hyn sydd ei angen arnynt yw cymorth. Mae diwylliant ac arweinyddiaeth yn hanfodol. Mae'n rhaid i ni sicrhau bod myfyrwyr yn gallu siarad â rhywun a bod cymorth ar gael ac yn hygyrch.

Mae'n rhaid i ni normaleiddio'r drafodaeth ynghylch iechyd meddwl hefyd. Mae mynd i brifysgol yn gam sylweddol. Mae gan Lywodraeth nesaf Cymru gyfle i ddatblygu strategaeth iechyd meddwl newydd. Mae hynny'n gyfrifoldeb enfawr ac yn gyfle i adnewyddu gwaith yn y maes hwn a bwrw golwg glir dros yr hyn rydym wedi bod yn ei wneud.

**Ben Lewis (Prifysgol Caerdydd)**

Mae'n amlwg bod y targed o ran disgwyliadau myfyrwyr wedi symud a newid. Rwy'n meddwl bod symudiad pendant tuag at gamsyniad y dylai sefydliadau addysg uwch gyflawni rôl darparwyr gofal iechyd. Mae rôl prifysgolion yn wahanol o ran iechyd meddwl.

Bydd yn rhaid i unrhyw ddull gweithredu cenedlaethol ddiffinio rolau prifysgolion ac mae cyfle i wneud rhywbeth eithaf pwrpasol yng Nghymru.

Mae'r bwlch rhwng y GIG ac addysg uwch yn broblem.

Yng Nghaerdydd, rydym wedi llunio model ymyrraeth newydd sydd hefyd yn helpu myfyrwyr i gael mynediad at gymorth gan weithwyr iechyd proffesiynol – mae 300 o fyfyrwyr wedi manteisio ar y gwasanaeth hwn.

Mae’n ymddangos yn glir bod rhai o’r materion sy’n gysylltiedig ag iechyd meddwl pobl ifanc yn mynd i effeithio ar y galw am wasanaethau gan fyfyrwyr sy’n dechrau yn y brifysgol. Mae'n wych bod adnoddau a sylw'n cael eu rhoi i’r materion hyn ar hyn o bryd, ond mae’n bwysig ein bod ni'n cynnal y gwaith hwn at y dyfodol.

**Becky Ricketts (UCM Cymru)**

Strategaeth iechyd meddwl ôl-16 yw’r prif fater ar ein hagenda ni. Y peth pwysicaf y gall y strategaeth ei wneud yw nodi lle mae’r pwysau ar iechyd meddwl myfyrwyr. Mae’n rhaid i ni ganolbwyntio ar ymyrraeth gynnar. Mae bod yn fyfyriwr yn 2021 yn wahanol iawn i fod yn fyfyriwr 10 neu 20 mlynedd yn ôl.

Mae’n rhaid i ni hybu iechyd meddwl drwy’r system addysg gyfan.

Rhaid i'r strategaeth geisio uno portffolios a sicrhau bod Gweinidogion yn tynnu i'r un cyfeiriad.

**Lynne Neagle (Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant)**

Mae iechyd meddwl wedi bod yn flaenoriaeth i’r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc. Rwy'n awyddus iawn i geisio bwrw ymlaen â'r gwaith hwn. Mae’n rhaid i ni gymryd y cam nesaf ar gyfer dysgwyr ôl-16. Fy unig bryder yw’r angen i sicrhau cysondeb; hyd yn oed os nad yw’r cynnig yr un fath, mae’n rhaid iddo fod yr un mor dda.

**John de Pury (Prifysgolion y DU)**

Mae prifysgolion wedi gwneud ymdrechion enfawr i gamu i’r adwy o ran darparu gofal iechyd meddwl. Fodd bynnag, ni ddylem fod yn ceisio dyblygu gwasanaethau iechyd mewn prifysgolion ar gyfer myfyrwyr sy’n wynebu salwch meddwl difrifol. Mae’n rhaid gofyn i’r GIG ddod yn ôl i ddiwallu’r anghenion hynny.

Ni ddylai prifysgolion fod yn camu i mewn i faes gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol.

Mae mynd i’r afael â’r cyfnod pontio ar gyfer pobl ifanc wrth iddynt fynd i’r brifysgol yn rhan allweddol o’r strategaeth.

**Becky Ricketts**

Mae'r rhain yn faterion a phroblemau y mae myfyrwyr yn eu hwynebu bob dydd. Mae yna ddatgysylltiad pendant rhwng myfyrwyr sy'n rhy sâl i brifysgolion ymdrin â nhw ond sydd ddim yn ddigon sâl i gael gofal gan y GIG. Yn aml, oherwydd y bwlch enfawr hwn rydym yn colli’r bobl hyn o’r system addysg prifysgol. Mae myfyrwyr yn ei chael hi’n anodd cofrestru gyda meddygon teulu. Mae llawer o fyfyrwyr heb gofrestru. Mae yna ychydig o faterion cyffredin y disgwylir i fyfyrwyr ddelio â nhw.

**John de Pury**

Mae profiadau bywyd myfyrwyr ar hyn o bryd yn gysylltiedig â dadleoliad gofal. Mae angen yr ewyllys gwleidyddol i’w ddatrys. Un peth cadarnhaol sydd wedi deillio o'r pandemig yw ein bod wedi dangos y gallwn symud cofnodion a gofal i mewn i ofod digidol. Ni fydd hyn yn datrys pob problem, ond gall gofal digidol fod yn rhan o’r ymateb i rai o’r heriau daearyddol.

**Kirsty Palmer (Prifysgol Metropolitan Caerdydd)**

Mae’n rhaid i ni feithrin llythrennedd emosiynol da ymhlith ein myfyrwyr, yn ogystal â dealltwriaeth o sut i ymdopi â gwahanol heriau. Nid yw hynny o reidrwydd yn cynnwys gofal meddygol; yn hytrach, mae’n golygu rhoi lle ac amser iddynt, yn ogystal â rhoi gwybod am strategaethau ymdopi fel y gall pob cymuned ffynnu.

Os nad yw’r sgyrsiau hyn yn digwydd yn gynnar mewn bywyd, mae'n anodd dechrau'r sgwrs yn 18 oed. Mae gennym system diwtora personol strwythuredig ym Mhrifysgol Met Caerdydd, ac mae’r tiwtoriaid hynny’n cael hyfforddiant ar bob math o faterion. Efallai y bydd yn rhaid iddynt gyfeirio unigolyn at wasanaethau myfyrwyr. Mae gennym ni lawer mwy o waith i'w wneud yn y maes hwnnw. Mae’n rhaid i ni fod yn edrych ar sut rydym yn hyfforddi ac yn cefnogi ein corff cenedlaethol o academyddion yn y brifysgol.

**Emma Stratton**

Mae gennym ni arfer da i adeiladu arno. Y peth pwysig yw ceisio ehangu mynediad at y cymorth perthnasol. Mae cofrestru gyda meddyg teulu yn bwynt hynod bwysig, yn enwedig mewn perthynas â myfyrwyr rhyngwladol. Gobeithir y bydd hynny’n rhoi model inni fwrw ymlaen ag ef.

**Emma Gooding (Y Samariaid)**

O ran cyfraddau hunanladdiad, tra mai ymhlith dynion 45-49 oed y gwelir y cyfraddau uchaf, mae cyfraddau ymhlith pobl ifanc dan 25 oed wedi cynyddu, yn enwedig ymhlith menywod ifanc. Mae’n rhaid edrych ar y rhesymau am hynny, oherwydd nid COVID yw’r unig reswm.

**Yr Athro Maria Henfelaar (Prifysgol Glyndŵr Wrecsam)**

Rydym yn canfod bod rhai myfyrwyr yn siarad â gwasanaethau digidol yn hytrach na chael cyfarfodydd wyneb yn wyneb. Bydd hynny’n parhau i ddigwydd ar ôl y pandemig.

**Ben Lewis**

Mae’r pwynt ynghylch pontio rhwng gwasanaethau yn rhywbeth rydym yn gweithio arno yng Nghaerdydd, gyda’r bwriad iddo ddod yn fodel safonol o gynnig gwasanaethau i fyfyrwyr. Mae gennym gyfle i lunio iaith gyffredin i siarad â’r GIG ac egluro beth rydym yn ei wneud ar wasanaethau myfyrwyr.

**Yr Athro Julie Lydon**

Mae gennym gyfle i adrodd yn ôl â rhai egwyddorion strategol. Mae arnom angen arweiniad clir gan y Llywodraeth, ac mae’n rhaid bod yn glir ynghylch ein gofynion. Mae cysylltiad â’r GIG yn allweddol bwysig i hynny ac yn rhywbeth sydd wedi dod drwodd yn glir iawn.

**Hefin David AS**

Wrth symud ymlaen, gallwn lunio dogfen yn seiliedig ar y drafodaeth hon i gyfleu i'r pleidiau gwleidyddol mai dyma’r dyhead ar gyfer y dyfodol.